# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

**CA(3)-05-11**

**CA531 : Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011**

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau") yn gwneud trefniadau newydd ar gyfer hysbysu, ystyried ac ymateb i bryderon a hysbysir gan bersonau mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir gan neu o dan drefniadau gyda'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau'n gweithredu darpariaethau Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008 ("y Mesur").

### Materion technegol: Craffu

O dan Reol Sefydlog 15.2, ni wahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn.

### Rhagoriaethau: Craffu

Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG 2008 oedd y Mesur Cynulliad cyntaf i gael ei basio gan y Cynulliad a'r Rheoliadau hyn yw'r rhai cyntaf i gael eu gwneud o dan y Mesur hwnnw (er y caiff rhai darpariaethau yn y Rheoliadau eu gwneud o dan bwerau a drosglwyddwyd i Weinidogion Cymru gan ddeddfwriaeth San Steffan).

Roedd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth (fel yr oedd bryd hynny) yn pryderu y dylai rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan y Mesur fod yn destun gwaith craffu trwyadl. Felly, mae'r Aelodau wedi cael papur cefndir gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, yn nodi rhai o bryderon y Pwyllgor ar y pryd, ynghyd â gwybodaeth am y trefniadau ymgynghori cymwys a'r gwelliannau a wnaed i'r rheoliadau drafft yn dilyn gwaith ymgynghori.

O ystyried y cefndir hwn, efallai y bydd y Pwyllgor am ystyried a ddylai gyflwyno adroddiad ar "ragoriaethau" i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 15.3.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**
**Chwefror 2011**